**P-05-654 – Gwrthwynebu'r Cynigion Presennol o ran Dynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ar gyfer Llamhidyddion.**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Stephen De-Waine ar ôl casglu 109 llofnod.

**Geiriad y ddeiseb**

*Rydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i newid y ffordd y mae ffiniau presennol yr Ardaloedd Cadwraeth Arbennig arfaethedig ar gyfer Llamhidyddion yn cael eu sefydlu. Dylid cynnwys gwyddoniaeth i gefnogi ffactorau ffisegol a biolegol sy'n hanfodol i gylch bywyd y Llamhidyddion, gan gynnwys nodi lle mae'r creaduriaid yn bwydo a lloia. Ni ddylent gael eu sefydlu'n unig gan edrych ar boblogaeth o 10%, a ganfuwyd drwy fapio, sy'n wyddoniaeth artiffisial.*

*Fel y gwyddoch mae'n debyg, mae'r DU o dan fygythiad achos cyfreithiol ar hyn o bryd, oherwydd y dylai ddynodi rhagor o Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn unol â'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd ar gyfer diogelu Llamhidyddion Harbwr.*

*Mae'r gwrthwynebiad hwn yn deillio yn sgîl y ffaith ei bod, ar hyn o bryd, yn amhosibl mesur yr effaith y gall Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sydd newydd eu dynodi eu cael ar y diwydiant pysgota yn y dyfodol. Mae hefyd yn gofyn cwestiynau ynghylch beth yw'r sail wyddonol a ddefnyddiwyd i sefydlu'r ardaloedd arfaethedig*

*Gwybodaeth ychwanegol*

*Mae'r Cyfarwyddebau Cynefinoedd Ewropeaidd presennol wedi profi, o dan Erthygl 6 (3) Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, os cânt eu defnyddio'n ddiwahân, y gallent gael effaith ddinistriol ar ein cymunedau arfordirol sy'n dibynnu ar bysgota am eu bywoliaeth.*

*Mae'r Ardaloedd Cadwraeth Arbennig dynodedig presennol wedi cyfyngu ar bysgodfeydd, gan ddod â chaledi i ran ein cymunedol arfordirol. Hefyd, ar brydiau, nid oes tystiolaeth wyddonol gadarn i gefnogi penderfyniadau'r Llywodraeth, ond yn hytrach mae'n defnyddio'r egwyddor ragofalus.*

*Er bod Llamhidyddion eisoes yn cael eu gwarchod yn dda, bydd dynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig o'r newydd, a fydd yn troshaenu ar yr ACA presennol, o bosibl, yn caniatáu i unigolion lunio achos cryfach gerbron Cyfarwyddiaeth Gyffredinol yr UE ar yr Amgylchedd yn y dyfodol. Bydd yr achos hwnnw'n nodi rhagor o gyfyngiadau, er mwyn gwarchod yr amgylchedd morol ar draul y cymunedau arfordirol.*

*Mae maint y safleoedd yn awgrymu bod y ffiniau wedi cael eu sefydlu gan ddefnyddio'r egwyddor ragofalus, yn hytrach na gwyddoniaeth. Mae modelu yn ei hanfod yn wyddoniaeth artiffisial a ddefnyddir pan fydd y ffeithiau'n brin. Mae modelu hefyd yn gwbl ddibynnol ar y data, a gaiff eu bwydo i'r system.*

*Byddai'n well darganfod beth yw'r factorau ffisegol a biolegol sy'n hanfodol i gylch bywyd y Llamhidyddion, a ble y bydd yn bwydo a lloia. Ni ddylid edrych ar boblogaethau o 10% yn unig er mwyn pennu ffiniau'r ACA arfaethedig newydd.*

*Nid yw'r rhan fwyaf o bysgotwyr yn wahanol o gwbl i'r amgylcheddwyr. Maent hwythau'n mwynhau'r amgylchedd morol y maent yn gweithio ynddo, ac maent wrth eu bod yn gweld mamaliaid morol tra byddant yn pysgota.*

*Rydym mewn perygl o dros-reoleiddio'r moroedd o amgylch ein harfordir â deddfwriaeth amgylcheddol. Gallai hynny arwain at eithrio cymdeithasol o ran gweithgareddau traddodiadol y mae ein cymunedau arfordirol yn dibynnu arnynt.*

*Y broblem graidd yw pan fydd dynodi Ardaloedd Cadwraeth Arbennig yn cael ei ddefnyddio fel prif ddull i atal gweithgareddau, wedi i unigolion a sefydliadau gamddefnyddio deddfwriaeth mewn apeliadau a drefnwyd yn ofalus gerbron Cyfarwyddiaeth Gyffredinol yr UE ar yr Amgylchedd. Nid oes ganddynt wyddoniaeth ddibynadwy i gefnogi cam i gyfyngu ar weithgareddau ychwaith. Bryd hynny, defnyddir yr egwyddor ragofalus i gau pysgodfeydd neu i gyfyngu ar weithgareddau, sydd yn ei dro yn arwain at galedi difrifol i'r cymunedau arfordirol.*

*Mae'n eithriadol o bwysig bod yr ardal yn gymharol a'i bod wedi'i dynodi ar sail tystiolaeth wyddonol gadarn.*

## Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Preseli Sir Benfro
- Canolbarth a Gorllewin Cymru